

## **Polisi Preifatrwydd**

Ni yw NCI Systems Limited. 'Rydym hefyd yn gweithredu dan yr enw masnachol TICKETsrv. Mae NCI Systems Limited yn gorfforedig yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cofrestredig 04108788. Mae swyddfeydd cofrestredig a phrif leoliad y busnes yn 2, Rydens Road, Walton on Thames, Surrey, KT12 3BS. Cofrestrwyd y cwmni gyda swyddfa'r ICO gyda'r rhif ZA347623.

'Rydym wedi ymrwymo i barchu eich preifatrwydd. Ymhellach, nid ydym yn gwerthu unrhyw Ddata Personol y byddwn yn casglu ymlaen i unrhyw drydydd person.

Trwy ddefnyddio ein gwasanaethau fel cwsmer, delio gyda ni fel cyflenwr, neu yn anuniongyrchol fel cwsmer i un o'r trefnwyr digwyddiadau yr ydym yn gweithio gyda, yr ydych yn cytuno i'r telerau yn y Polisi Preifatrwydd hwn.

### **Pa Ddata Personol ydym ni'n casglu?**

Gall y data yr ydych yn darparu gynnwys manylion eich enw, cyfeiriad, ebost a rhif ffôn.

Bydd y Data yr ydym yn casglu yn awtomatig yn cynnwys gwybodaeth parthed cyfeiriad IP y ddyfais y gwnaethoch ddefnyddio i gysylltu â ni, os oes un, a gallai gynnwys gwybodaeth sy'n deillio o cwcis a thechnolegau tebyg sy'n nodi'r llwybr y gwnaethoch ddefnyddio i gysylltu.

Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth o ffynnonellau eraill fel: trefnwyr digwyddiadau, ein partneriaid prosesu taliadau, cyfryngau cymdeithasol neu wasanaethau integredig eraill.

Os ydych yn gyflenwr gwasanaeth i ni, gofynnwn i chi ddarparu Data Personol ychwanegol i hwyluso taliadau i chi a allai fod yn ofynnol o ran pwrpas treth.

### **Sut defnyddir Data Personol?**

Gall Data Personol gael ei ddefnyddio i gyflenwi trafodion, neu i gyflenwi'r gwasanaeth yr ydych wedi ei archebu.

Os byddwch yn darparu Data Personol (e.e. cyfeiriad ebost), at bwrpas penodol, gallwn ddefnyddio'r Data Personol mewn cysylltiad â'r bwriad (e.e. ymateb i ymholiad trwy ebost i'r cyfeiriad a ddarparwyd).

Gallwn ddefnyddio eich Data Personol ar gyfer pwrpasau busnes cyffredinol, yn cynnwys rheoli eich cyfrif, fydd yn ein galluogi i ddeall eich anghenion fel defnyddiwr yn well, gwella ein gwasanaethau, a gorfodi ein termau gwasanaeth.

Os ydych eisoes yn gwsmer i ni, neu eisoes wedi dangos diddordeb yn ein gwasanaethau, gallwn gysylltu â chi yn achlysurol i'ch cadw yn y pictiwr parthed diweddiadau i'n gwasanaethau. Bydd modd i chi optio allan o hyn ar unrhyw adeg.

Os ydych yn drefnydd digwyddiadau, nid ydym yn defnyddio Data Personol sy'n perthyn i'ch cwsmeriaid i farchnata iddynt.

## **Trosglwyddo eich Data Personol**

Efallai y byddwn yn rhannu eich Data Personol gyda rhiant gwmni neu gwmnïau grŵp sydd wedi nodi eu parodrwydd i gadw'r Data Personol yn unol â'r Polisi Preifatrwydd yma.

Os ydych yn gwsmer i un o'r trefnwyr digwyddiadau yr ydym yn darparu gwasanaeth gwerthu tocynnau arlein iddynt, bydd unrhyw Ddata Personol y byddwch yn darparu dan reolaeth trefnydd y digwyddiad, ac yn ddarostyngedig i dermau ei bolisi preifatrwydd ei hun. Nodir enw trefnydd y digwyddiad ar y dudalen talu.

Efallai y byddwn yn rhannu eich Data Personol gyda chontractwyr neu ddarparwyr gwasanaeth e.e. proseswyr taliadau, gwasanaethau trosglwyddo arian, gwasanaethau ebost, darparwyr ad-ennill gwybodaeth mewn argyfwng, sy'n perfformio gwasanaethau busnes penodol.

Mewn achos o werthiant corfforaethol, cyfuniad busnes neu ad-drefnu arall, gall Data Personol gael ei drosglwyddo fel rhan o'r asedau busnes i endyd newydd neu wahanol. Mewn achos o'r fath gall y cwmni newydd ddefnyddio'r Data Personol yn unol â'r Polisi Preifatrwydd hwn.

Gallwn ddatgelu eich Data Personol ar gais cyfreithiol i ufuddhau i orchymyn gan gwmni arolygu cymwys, llys neu asiant ar ran y llywodraeth.

## **Edrych ar ôl eich Data Personol**

Gall y Data Personol sydd yn ein meddiant gael ei gadw ar weinyddion sydd dan ein rheolaeth, neu ar weinyddion trydydd parti a leolir o fewn yr UE.

Cadwn fesurau technegol a threfnyddol priodol i warchod y Data Personol rhag cael ei brosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon, colled ddamweiniol neu faleisus neu ddadleniad sy'n briodol i natur y Data Personol, a'r drwg allai ddigwydd o golled, dadlenni neu brosesu heb awdurdod, gan ddefnyddio ymarfer da perthnasol.

Defnyddiwn *encryption* diwydiannol safonol i drosglwyddo Data Personol.

Defnyddiwn proseswyr taliadau megys Sage Pay, Stripe a PayPal i brosesu taliadau. Nid ydym yn cadw manylion eich cardiau credyd.

Byddwch yn ofalus wrth ddanfôn Data Personol atom gan na all trosglwyddiad ebost byth â bod yn gwbl ddiogel.

## **Cael mynediad, cywiro a dileu eich data**

Gallwch wneud cais i gael mynediad i'r Data Personol sydd gennym trwy gysylltu â ni ar [nci@nci.co.uk](mailto:nci@nci.co.uk). Gallwch hefyd wneud cais i ddileu'r Data Personol sydd gennym amdanoch. Mewn achos o Ddata Personol a gyflwynwyd mewn cysylltiad â phwrcasu tocynnau gan drefnydd digwyddiad, os byddwn yn dileu eich Data Personol yn unol â'ch cais, gall yr wybodaeth barhau i fod ar gael i'r trefnydd digwyddiad, yn ddibynnol ar amseriad y cais i ddileu.

## **Cadw Data Personol**

'Rydym yn cadw Data Personol i gynorthwyo i ddatrys anghydfod ac i ufuddhau i unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol. Hyd yn oed os byddwn yn dileu Data Personol, gall barhau ar gyfrwng wrth gefn am gyfnod ychwanegol.

## **Cwcis a thechnolegau tebyg**

Defnyddiwn cwcis i olrhain llwybr y ddyfais a ddefnyddiwyd i gael mynediad i'n safle. Mae nifer o'r trefnwyr digwyddiadau sy'n defnyddio ein gwasanaethau tocynnau arlein yn defnyddio cwcis i roi profiad sydd wedi ei deilwra; gall cwcis gael eu defnyddio gan drefnwyr digwyddiadau a ninnau i ddsbarthu hysbysebion sydd wedi eu teilwra.

## **Gwybodaeth ychwanegol parthed Deddf Diogelu Data (GDPR)**

Daeth y Ddeddf Diogelu Data (*General Data Protection Regulation*) i rym yn yr UE (gan gynnwys y DU) ym mis Mai 2018

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn mynnu ein bod yn darparu mwy o wybodaeth am brosesu data personol unigolion.

## **Sail y prosesu**

Gall sail y prosesu fod yn:

- Prosesu yn angenrheidiol i gyflawni perthynas cytundebol gyda chi (e.e. darparu nwyddau a gwasanaethau a ofynnwyd amdano.
- Prosesu cyfranogiad cyfreithlon (e.e. darparu gwasanaeth cwsmer; at bwrpas gwella profiad cwsmer yn gyffredinol, neu olrhain diffygion.
- Chi, gwrthrych y data, wnaeth nodi eich cydsyniad (e.e. i dderbyn ebyst marchnata)

## **Trosglwyddo Data Personol**

Mae'n bosib y bydd angen i ni drosglwyddo Data Personol tu allan i'r wlad y gwnaeth ddeillio. Yn gyfredol, mae ein data yn cael ei storio mewn lleoliadau yn y Du a gwledydd UE eraill. Gall hyn gynnwys storio gan drydedd person.

## **Cadw data personol**

Cadwn eich Data Personol mor hir ag sy'n angenrheidiol er mwyn i ni ddarparu'r gwasanaethau yr ydych wedi gofyn amdanynt, a hefyd i gynorthwyo gyda datrys unrhyw anghydfod ac ufuddhau i oblygiadau cyfreithlon.

## **Eich Hawliau**

Mae cyfraith diogelu data yn gwahaniaethu rhwng Rheolwyr Data (sy'n prosesu Data Personol ar gyfer eu pwrpasau eu hunain) a Phroseswyr Data (sy'n prosesu data ar ran cymdeithasau eraill). Dylai unrhyw gwestiwn neu gŵyn ar sut mae eich data personol yn cael ei drin gael ei gyfeirio i'r Rheolwr Data perthnasol, sydd â'r cyfrifoldeb cychwynnol am eich Data Personol.

Mae cyfraith diogelu data yn darparu i chi, gwrthrych y data, gyda rhai hawliau mewn perthynas â'r data y gallem fod yn ei ddal. Mae hyn yn cynnwys hawl i gael mynediad, hawl i gywiro, hawl i ddileu, cyfyngu prosesu, a'r hawl i wrthwynebu i brosesu. Gallwch weithredu'r hawliau hyn trwy ysgrifennu atom yn [nci@nci.co.uk](mailto:nci@nci.co.uk). Gall fod rhai achosion lle bydd eithriadau i'r ddeddfwriaeth fydd yn golygu na fydd angen i ni gydsynio i'ch cais.

Os byddwch yn rhyngweithio gyda ni fel cwsmer un o'r digwyddiadau yr ydym yn gweithio ar eu rhan, byddwn yn prosesu y Data Personol mewn perthynas a'ch trafodiad, ac i gynorthywo strategaeth gwerthiant y digwyddiad (gan gynnwys dadansoddiad gwerthiant) fel prosesydd data y digwyddiad. Trefnydd y digwyddiad yw'r Rheolwr Data ar gyfer y data yma. Bydd unrhyw gwestiynau parthed Data Personol o'r natur yma, a'ch hawliau mewn perthynas â hyn yn cael ei drosglwyddo i drefnydd y digwyddiad.

Os oes gennych gŵyn ar sut yr ydym yn trafod eich Data Personol, cysylltwch â ni fel a nodir uchod. Os ydych yn anhapus ar sut y gwnaethom ddelio â'ch cŵyn gallwch gysylltu â'r awdurdod diogelu data perthnasol. Mewn perthynas â'r DU, y cysylltiad yw Swyddfa'r Comisiwn Gwybodaeth (ICO).

Yr ydym ni, a'r rhan fwyaf o drefnwyr digwyddiadau, yn ychwanegol, yn defnyddio *Google Analytics*, sy'n darparu data cyfansymiol anhysbys am ddefnydd o wefannau. Gallwch gael eich eithrio o reolaeth *Google Analytics* trwy ddefnyddio'r linc canlynol:

<https://tools.google.com/dlpage/gaoptout/>

Mae rhagor o wybodaeth am y gwahanol fathau o ddulliau marchnata digidol a'r cyfleoedd i eithrio sydd ar gael i chi ar gael yma:

<http://www.youronlinechoices.com/uk/>

### **Eithriadau penodol sydd ar gael i chi**

Bydd unrhyw hysbysiad marchnata oddi wrthym yn cynnwys linc i danysgrifio. Rhaid i unrhyw hysbysiad marchnata gan drefnydd digwyddiad hefyd gynnwys linc debyg. Nid ydym yn penderfynu ar gynnwys unrhyw hysbysiad marchnata a ddanfonir gan drefnwyr digwyddiad.

Gall gymryd hyd at 3 diwrnod gwaith i brosesu cais i danysgrifio. Mae ceisiadau i danysgrifio i drefnwyr digwyddiadau yn ddarostyngedig i dermau polisi preifatrwydd y trefnwyr.

Mae rhai hysbysiadau oddi wrthym mewn ymateb uniongyrchol i gais gan gwsmer. Er enghraifft, bydd cwsmer sy'n prynu tocyn oddi wrth drefnydd digwyddiad sy'n defnyddio ein system, yn derbyn tocyn trwy ebost oddi wrthym, a ddanfonir ar ran y trefnydd. Bydd cwsmer sy'n danfon ebost i'n gwasanaeth cymorth cwsmer yn derbyn ymateb trwy ebost, neu weithiau dros y ffôn. Nid yw'r math yma o gysylltiad yn cael ei effeithio gan unrhyw weithred o danysgrifio ar eich rhan.

## **Preifatrwydd Plant**

Nid yw ein gwasanaethau wedi'u haneli at blant, ac nid ydym o fwriad yn casglu Data Personol plant dan 13 oed. Os y tybiwch bod plentyn dan 13 oed wedi darparu Data Personol i ni, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad ebost [nci@nci.co.uk](mailto:nci@nci.co.uk) a byddwn yn mynd mor bell â phosibl i ddileu'r Data Personol yma.

## **Diweddarau'r polisi**

Byddwn yn diweddarau'r polisi hwn yn gyson, fel bydd ein busnes a'r deddfau perthnasol yn newid. Bydd y fersiynau diweddaraf o'r polisi yn ymddangos ar y safle hwn gyda nodyn o'r dyddiad y bydd y diweddariad yn weithredol. Bydd eich defnydd parhaol o'r wefan neu'n gwasanaethau wedi unrhyw newid mewn polisi yn cael ei weld fel eich bod yn derbyn y diweddariadau yma. Adolygwch y polisi cyn darparu Data Personol os gwelwch yn dda.

## **Cwynion**

Os oes gennych gŵyn parthed ein polisi preifatrwydd a'n gweithdrefnau, ysgrifennwch atom ar [nci@nci.co.uk](mailto:nci@nci.co.uk) neu i NCI Systems Limited, 2, Rydens Road, Walton on Thames, Surrey, KT12 3BS. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddatrys eich cŵyn.